AKU

Alkaptonuria Society

# Sut alla i helpu?

Rydym bob amser yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu â chodi arian, â chymunedau ar-lein, cysylltu â chleifion ac ymgyrchu.

**Cymdeithas AKU** C/O Advicehub,
66 Devonshire Road, Caergrawnt, CB1 2BL

Ffoniwch ni: **01223 322 897**

E-bost: **info@akusociety.org**

Ymwelwch â ni: **www.akusociety.org**

**@AKUSOCIETY**

**@AKUSociety**

**AKU Society**

Helpwch ni i wella AKU, clefyd genetig prin, trwy roddi ar-lein yn:
**www.justgiving.com/alkaptonuria**

Elusen Gofrestredig: 1101052

The Robert Gregory National AKU Centre NHS

BREAKING DOWN BARRIERS
Understanding genetics together

www.breaking-down-barriers.org.uk


AKU

Alkaptonuria Society

# Cymdeithas Alcaptonwria



# Sylfaenwyr



Robert Gregory



Yr Athro Ranganath

**Grŵp cleifion yw Cymdeithas AKU sy'n cefnogi cleifion ag alcaptonwria. Cafodd ei sefydlu yn 2003 gan glaf o'r enw Robert Gregory a'i feddyg, Yr Athro Ranganath.**

## Cenhadaeth

*'Trawsnewid bywydau cleifion AKU: drwy gymorth i gleifion, meithrin cymuned ac ymchwil meddygol.'*

Mae gennym hanes o ddyfalbarhad, ymroddiad ac arloesedd. Mae'n dangos sut y gall cleifion sydd â chlefydau prin a'u perthnasau gael eu grymuso i gymryd rheolaeth dros eu cyflwr ac ymroi i yrru eu gofal iechyd a'u rhagolygon am driniaeth ymlaen, mewn partneriaeth ag arbenigwyr meddygol.

# Cymorth i Gleifion

Gall byw ag AKU fod yn heriol, gan fod colli symudedd a phoen yn effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol cleifion. Dyma pam mae mor bwysig ein bod yn rhoi cefnogaeth i'n cleifion a'u teuluoedd, gan eu helpu i ymdopi â'r diagnosis a rheoli eu cyflwr orau y gallant.

Nodau:

- Darparu gwybodaeth ddibynadwy, gyfredol am AKU
- Rhedeg gweithdai blynyddol i gleifion
- Cynnig ymweliadau cymorth yn y cartref unigol
- Darparu cefnogaeth barhaus yn y Ganolfan AKU Genedlaethol (NAC) ac i gleifion DevelopAKUre

*'Mae'r cymorth cymar wrth gymar wedi gwneud byd o wahaniaeth i mi, drwy fy helpu i deimlo nad wyf ar fy mhen fy hun'*



# Meithrin Cymuned

Gall byw â chlefyd prin wneud i bobl deimlo ar eu pen eu hun, gan fod y cleifion wedi eu gwasgaru'n denau drwy'r holl fyd. Yma yng Nghymdeithas AKU, rydym yn gweithio'n galed i uno cleifion AKU a meithrin cymuned gref.

Nodau:

- Annog ymgysylltu drwy ein cymunedau ar-lein
- Helpu i godi ymwybyddiaeth o AKU ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd
- Sefydlu a chefnogi chwaer-gymdeithasau AKU mewn gwledydd eraill
- Uno cleifion AKU ledled y byd drwy weithdai cleifion rhyngwladol

Nod ein prosiect ymgysylltu ar-lein, a gefnogir gan y Gronfa Loteri Fawr, yw dod â chleifion AKU at ei gilydd mewn cymuned gefnogol ar y we. Rydym yn gwneud hyn drwy ein tudalen Facebook a'n cyfrif Twitter, ynghyd â dwy gymuned ar-lein i gleifion, Rare Connect a PatientsLikeMe. Mae ein postiadau blog rheolaidd ar y wefan yn diweddaru cleifion ynglŷn â beth mae Cymdeithas AKU yn ei wneud.

*'Mae'n anhygoel cael gwybod nad ydych ar eich pen eich hun a bod pobl eraill y gallwch ddysgu ganddynt a bod pobl sy'n gofalu amdanoch.'*



# Ymchwil Meddygol

Ein nod sylfaenol yw dod o hyd i wellhad ar gyfer y clefyd gwanychol hwn. Ar hyn o bryd, rydym yn rhedeg treial clinigol, DevelopAKUre, sy'n mesur effeithiolrwydd nitisinon, y driniaeth bosibl gyntaf ar gyfer AKU.



Nodau:

- Ffurfio partneriaethau gwyddonol
- Deall a thrin y clefyd

*'Mae'r treialon hyn wedi rhoi llawer o obaith i ni. Gallai'r driniaeth hon newid ein bywydau'n llwyr. Rydym un cam yn nes at ddod o hyd i wellhad'*




# Gwaith parhaus a chynlluniau ar gyfer y dyfodol:

Rydym yn cyrraedd cam olaf ein prif astudiaeth feddygol i'r defnydd o nitisinon i drin AKU. Pan ddaw'r astudiaeth i ben, bydd ein partneriaid yn asesu'r data ac yn ystyried a ddylent ymgeisio am awdurdodiad i farchnata. Os bydd hyn yn llwyddiannus, bydd Cymdeithas AKU yn canolbwyntio ar sut i sicrhau bod cleifion AKU ledled y byd yn gallu cael mynediad at nitisinon.




Yng Nghymdeithas AKU rydym yn gweithio i

- Gefnogi cleifion, eu teuluoedd a'r rhai sy'n rhoi gofal iddynt
- Trefnu a rhedeg gweithdai i gleifion
- Annog ymgysylltu rhwng cleifion drwy gymunedau ar-lein
- Codi ymwybyddiaeth am AKU
- Cyfrannu at ymgyrchoedd ac ymchwil ar bolisi clefydau prin
- Ymchwilio i achosion, effeithiau a thriniaethau AKU